Adroddiad Cyfarfod 09:09:15 Owain Llestyn Thomas

Croesawyd pawb i'r cyfarfod cyntaf o'r tymor gan y cadeirydd newydd, Mair Read. Braf oedd gweld aelodau hen a newydd wedi troi allan unwaith eto, y nod yw hwyl a difyrwch yng nghwmni'n gilydd. Braf gweld fod Delyth yn gwella ac wedi dod heno a bod Nan wedi dod nol adre yn dilyn cyfnod yng Nghaerdydd oherwydd salwch 'i thad. Dymunwyd yn dda i Rhian ar ei hymddeuoliad. Llongyfarchwyd Glenys ar ei hymweliad a Canada a dymunwyd phriodas dda i Aled a Kelly. Dwy nain newydd, Rhian yn nain i Lily Mai a Anne ar ddod yn nain eto i Tomos Pyrs, llongyfarchiadau i'r ddau deulu. Pob dymuniad da i Mary ar ddathlu penblwydd arbennig ac i Alys ac Angylion Kelly ar ei llwyddiant yn yr eisteddfod genedlaethol ym Meifod. Llongyfarchiadau i Elwyn Hughes ar ei ymddeuoliad o'i swydd eisteddfodol. Braf oedd gweld teulu Llunos Angharad, merch Lynwen ar raglen Dai Jones yn ddiweddar.

Eisteddfod Bethel nos Sadwrn ar ôl ein cyfarfod nesaf, bydd yno enillwyr cenedlaethol, anogwyd pawb i gystadlu ar y limeric ac i gefnogi. Diolchwyd i bawb a fu'n casglu o ddrws i ddrws at Sefydliad y Galon, £419.42 wedi ei hel. Bore coffi yn y neuadd, Medi 25ain er budd yr elusen McMillan.

Pwyllgor rhanbarth nos Lun Medi 28ain, angen cynyrchiolydd i'r pwyllgor celf a chrefft, Mair Read a Mair Price yn gwirfoddoli. Cwis hwyl ar Dachwedd 13eg. Mair Williams wedi cyflwyno mantolen o'r gangen y llynedd.

Rhaglen eleni, diolchwyd i Jen a chwmni Delwedd amdani, anogwyd pawb i edrych ar ein gwefan arbennig , gosodwyd 2 sialens i bawb, i ddefnyddio'r wefan ac i hel aelodau newydd fengach! Mair yn ein hannog i gerdded mwy eleni, ac i gefnogi teithiau cerdded Gareth Roberts.

Adloniant.

Pleser oedd cael croesawi ennillydd mewn 2 eisteddfod genedlaethol eleni, ennill ar yr unawd corn dan 16 oed, yn y 2 Eisteddfod Genedlaethol gan ennill y rhuban glas yn Meifod. Owain Llestyn Thomas yn ddisgybl yn ysgol Brynrefail ac yn byw yn y Ddol, Bethel. Swynwyd pawb gan chwarae medrus, swynol a theimladol Owain gyda Glenys Griffith yn cyfeilio.

Darllenwyd cerdd Richard LloydJones i Owain gan Mair Diolchwyd i Owain gan Mair gan ddymuno'n dda iddo at y dyfodol.

Yn dilyn cafwyd lluniaeth anrhydeddus a ddarparwyd gan aelodau'r pwyllgor.

Enillwyr y raffl oedd Gwyneth Jones, Marred Owen a Eirlys Sharpe.

Angen trefnu pwyllgor er trefnu pa ganghennau i'w gwadd atom at noson fasu gwin Marcus, Mair am gyhoeddi gwahoddiad i ganghennau yn y pwyllgor rhanbarth.